12. We also feel that the oral complaint process will have to be carefully managed to prevent misuse by vexatious complainants and to avoid disputes about the accuracy of transcribed complaints and the extent to which these reflect the views and wishes of the complainant.

### **Ombudsman initiated investigations**

13. We welcome and support the new power enabling the Ombudsman to initiate his own investigations. We believe that this will offer greater protection to vulnerable members of society who may be reluctant to make a complaint about public services. Where the new power leads to the identification of systemic problems and results in measures to eradicate them, the benefits will be even greater.
14. However, it is our view that there is a need for greater clarity about the Ombudsman's power to continue with an investigation where the complainant does not want the complaint to be regarded as duly made. Section 8(5) of Part 3 prevents the Ombudsman's from carrying out an investigation in these circumstances. However, it appears that the Ombudsman can proceed with an investigation under section 4 whether the complaint has been duly made or not. While we support the ability to do this but there may be practical difficulties where the main complainant would not wish to be involved. We would welcome further information about this provision.



## **Complaints handling standards and procedures**

15. Social Care Wales has two complaints-handling procedures; one for complaints about social care workers and one about for complaints about our how we operate. The process for complaining about social care workers is largely set out in the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 and it is likely that we will want to rely on section 41(1)(b) or section 37(4) of the Bill to justify a decision to deviate from (or use a modified version of) a model complaints-handling procedure.
16. We would welcome information about whether, under section 38(1), the Ombudsman will be able to draw attention to approved non-compliance, where an organisation has relied on sections 41(1)(b) or section 37(4) to obtain consent to deviate from the model complaints handling procedure. This could help the organisations involved avoid unnecessary challenges to their processes based on alleged non-compliance.



## **Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW)**

### **Written Submission in respect of the Public Services Ombudsman (Wales) Bill**

#### **General observations:**

CSSIW has a positive and constructive relationship with the Public Services Ombudsman Wales (PSOW) based on a clear understanding and respect for each other's independent roles. We have a Memorandum of Understanding which is due for revision with the imminent introduction of the Regulation and Inspection of Social Care Wales Act 2016.

CSSIW registers and inspects a wide range of care services. CSSIW has no powers in relation to complaints about care services but is keen to follow up any concerns arising from complaints and where necessary will take enforcement action. Regulations expect care providers to have a clear complaints procedure. When people cannot get satisfaction from a care provider and the care is funded by a public authority they can take their complaint to the public authority.

In Wales, where the care is not funded, people can turn to the PSOW. Although the take up has been low we believe the PSOW provides a very important route for achieving resolution.

We are aware that there are some issues which are contractual (e.g. fees) and where CSSIW has no provenance. We also know that some providers give notice to residents and their relatives when complaints are made. The extent to which these matters are Trading Standards issues or matters for the PSOW is an area for determination. The importance of providing a safeguard in these matters will be highlighted in the imminent Competition and Markets Authority report on the care home market.

CSSIW also inspects Local Authorities. There are specific regulations setting out how complaints about Local Authorities must be handled with ultimate recourse to the PSOW. CSSIW has no powers in relation to complaints about Local Authorities but we do use the learning from complaints to inform our inspections and to require improvement.

CSSIW has also been the subject of a small number of complaints raised with the PSOW. We have found the PSOW to be clear when deciding which cases will and will not be investigated and to be fair and where necessary challenging in reaching its findings and making requirements of us.

**The committee asked for comments on the following:**

- *The general principles of the Public Services Ombudsman (Wales) Bill and the need for legislation to deliver the stated policy intention;*

These seem sound and build upon the arrangements currently in place.

- *the provisions of the Bill which set out the new powers for the Ombudsman to:*
- *accept oral complaints;*

We believe this is important for the reasons stated.

We note that people using care services are more likely to be vulnerable and lack the ability and confidence to initiate a written complaint.

Promoting accessibility to the PSOW enables greater equality and is supportive of people's rights.

The inclusion of electronic communication is sensible going forward.

- *undertake own initiative investigations;*

As explained in the Bill, issues may surface for which no individual has locus, insight or the intention to make a complaint but where a failure in administration has resulted in poor outcomes. It will be important for the PSOW to have clear criteria so PSOW responsibilities do not overlap those of regulatory bodies. For example anonymous complaints about care services. The strength of the PSOW function is that it can look across public systems and at the interconnectivity and systems failures where as regulatory bodies are commonly concerned with constituent parts. This is also an issue considered in the White Paper, *Services Fit for the Future, Quality and Governance in Health and Care in Wales*

- *investigate private medical treatment including nursing care in a public/private health pathway;*

We do not have a particular view on this. Clearly co-ordination and working closely with Health Inspectorate Wales and the Community Health Councils would need to be considered.

- *undertake a role in relation to complaints handling standards and procedures;*

This would seem sensible. The PSOW has much to contribute from the learning reflected in the PSOW's "casebook". There is an "invest to save" argument here. The more the PSOW can do to promote better complaint handling upstream the less the PSOW should need to do to investigate complaints at a later stage.

- *any potential barriers to the implementation of the Bill's provisions and whether the Bill takes account of them;*

We do not have a particular view on this.

- *the appropriateness of the powers in the Bill for Welsh Ministers to make subordinate legislation (as set out in Chapter 6 of Part 1 of the Explanatory Memorandum);*

These seem reasonable to enable future proofing of the Act and to provide a mechanism to respond to changes and learning from PSOW activity.

- *whether there are any unintended consequences arising from the Bill;*

We do not have identified any intended consequences.

- *the financial implications of the Bill (as set out in Part 2 of the Explanatory Memorandum);*

We do not have a particular view on this.



**David Francis**  
**Assistant Chief Inspector CSSIW**

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8025  
E-bost: [Kathryn.Chamberlain@llyw.cymru](mailto:Kathryn.Chamberlain@llyw.cymru)

Chloe Davies – Deputy Clerk  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

[Chloe.Davies@assembly.wales](mailto:Chloe.Davies@assembly.wales) <mailto:SeneddCommunities@Assembly.Wales>

Dyddiad: 29 Tachwedd 2017

Ein cyf:

Annwyl Chloe

**RE: Ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)**

Gwelir yn atodedig, fel y gofynnwyd, llythyr sy'n rhoi cyflwyniad ysgrifenedig ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Yn gywir



Dr Kate Chamberlain  
Prif Weithredwr  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

**Gwirio bod pobl yng Nghymru  
yn derbyn gofal da**

**Checking people in Wales are  
receiving good care** Tudalen y pecyn 48

Llywodraeth Cymru / Welsh Government  
Parc Busnes Rhydycar / Rhydycar Business Park  
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil  
CF48 1UZ  
Tel / Ffôn 0300 062 8163  
Fax / Ffacs 0300 062 8387  
[www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)



**Tachwedd 2017**

**Ymgynghoriad ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau  
Cyhoeddus (Cymru)**

## Materion cyd-destunol

1. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y gwaith craffu ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Rydym wedi fframio ein hymateb yn bennaf yng nghyd-destun cyfrifoldebau'r Ombwdsmon o ran darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, er ein bod yn cydnabod bod ei bwerau'n ymestyn yn ehangach na hynny. Cafodd ein rôl ei hamlinellu yn Atodiad 1.
2. Mae adroddiad interim yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn nodi:  
*“Mae consensws cryf ymhlith y rhanddeiliaid y gwnaethom siarad â nhw ynghylch y cyfeiriad cyffredinol tuag at ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau sydd o bwys i'r unigolyn.”*
3. Mae symud tuag at y cyfeiriad hwn yn cefnogi nifer o'r pwerau newydd.  
**Cwynion ar lafar.** Croesewir yr hyblygrwydd i dderbyn cwynion yn y ffordd sydd fwyaf hygyrch a phriodol i'r sawl sy'n cwyno.  
**Llwybr cyhoeddus/preifat.** Croesewir y gallu i archwilio'n llawn i amgylchiadau gofal unigolyn pan fod y gofal hwnnw'n croesi'r ffin rhwng cyrff rhestredig a gofal iechyd preifat.  
**Safonau delio â chwynion.** Dylai cyflwyno prosesau cyson a di-dor ar gyfer delio â chwynion ar draws ffiniau gwasanaethau symleiddio'r broses a darparu eglurder ar gyfer y cyhoedd.
4. Bydd hi'n bwysig sicrhau bod y gwaith o weithredu'r pwerau yn y Bil hwn yn ymwybodol o ddatblygiadau deddfwriaethol perthnasol, ac wedi'i alinio â'r datblygiadau hyn, fel deddfwriaeth bosib yn dilyn Papur Gwyn “Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol”, sydd hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i alinio safonau a phrosesau cwyno ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

## Darpariaeth i'r Ombwdsmon dderbyn cwynion ar lafar

5. Rydym yn croesawu'r hyblygrwydd yn y Bil, sy'n caniatáu i'r Ombwdsmon amlinellu ffurf a chynnwys cwynion yn y canllawiau. Bydd hyn yn sicrhau bod yr Ombwdsmon yn medru nodi'n glir beth fydd yn cael ei drin fel cwyn ffurfiol, gan fod pobl yn defnyddio technoleg mewn ffyrdd gwahanol (e.e. e-bost, negeseuon testun, Twitter).
6. Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth y dylai'r Ombwdsmon fedru derbyn cwynion ar lafar. Gallai rhai pobl ei chael hi'n anodd mynegi eu hunain yn ddigonol yn ysgrifenedig ac felly byddai'n cynorthwyo mynediad i ganiatáu i gwynion gael eu cyflwyno mewn amrywiaeth o ddulliau.

7. Fodd bynnag, bydd hi'n bwysig bod yr Ombwdsmon yn cofnodi'r wybodaeth ar ffurf ysgrifenedig a chadarnhau gyda'r unigolyn sy'n cwyno bod y cofnod yn adlewyrchu'n gywir y materion roedd am eu codi. Dylid gwneud hyn ar lafar ar yr adeg y caiff y gŵyn ei gwneud, p'un ai a yw'r unigolyn sy'n cwyno yn dymuno derbyn cadarnhad ysgrifenedig ai peidio.
8. Gellid dadlau bod Cymal 8 (9) yn rhy benodol ac nid yw'n mynd yn ddigon pell ar gyfer dibenion monitro mynediad a chanlyniadau. O bosib, gellid ei aralleirio ar hyd y trywydd, "Mae'n rhaid i'r Ombwdsmon gynnal cofrestr o'r holl gwynion, y modd y cawsant eu derbyn, a'r canlyniad." Gallai hyn helpu i fonitro a gwerthuso p'un ai a yw cwynion llafar yn fwy neu'n llai tebygol o fynd ymlaen at ymchwiliad ffurfiol.

### **Darpariaeth i ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ganiatáu ymchwilio i gwynion mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat**

9. Gwnaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gynnwys cartrefi gofal, gofal cartref a gofal lliniarol. Yn gyffredinol, rydym yn croesawu darpariaethau sy'n alinio trefniadau iechyd a gofal cymdeithasol, ble y bo'n briodol, ac sy'n osgoi gwahaniaethau sectoraidd mympwyol.
10. Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth i'r Ombwdsmon ystyried y gofal a'r driniaeth a ddarperir gan ddarparwr gofal iechyd preifat pan fod y gofal/triniaeth honno wedi deillio o'r GIG, neu wedi bod yn rhan o lwybr gofal unigolyn sydd wedi cynnwys y GIG hefyd. Mae hyn yn ymddangos yn synhwyrol ac mae'n cefnogi'r egwyddor o ofal di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### **Pŵer i ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau delio â chwynion**

11. Mae'r Bil yn caniatáu i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion yn ymwneud â delio â chwynion, a chyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer delio â chwynion. Mae'n caniatáu i'r Ombwdsmon ddatgan diffyg cydymffurfiaeth gan gorff rhestredig. Mae'n ofynnol hefyd i'r Ombwdsmon ysgwyddo rôl wrth oruchwylio'r gwaith o weithredu gweithdrefnau delio â chwynion, gan gynnwys hybu arfer gorau.
12. Rydym yn ystyried y byddai safoni gweithdrefnau cwyno o gymorth i'r cyhoedd. Mae'r mater hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynnig ar gyfer alinio prosesau ac archwilio cwynion ar y cyd ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel yr amlinellir ym Mhapur Gwyn "Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol". Credwn pan fod dinasyddion yn



derbyn gofal integredig y dylent allu cwyno unwaith yn unig, yn hytrach na gwneud dwy gŵyn ar wahân i wasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd hi'n bwysig bod corff clir sy'n arwain yr ymchwiliad i'r gŵyn gyda'r awdurdod i arwain ar ran y ddau gorff.

13. Bydd angen ystyried ymhellach ynglŷn â sut y bydd hyn yn ymddangos i ddinasyddion a allai fod yn derbyn gofal gan gyfuniad o wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal annibynnol, yn arbennig o ystyried yr ymestyniad i awdurdodaeth yr Ombwdsmon i archwilio llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat.
14. Ar y cyfan, rydym yn ystyried y byddai o fudd pennaf i'r cyhoedd gael corff sy'n gyfrifol yn benodol am sicrhau bod prosesau cwyno yn gweithredu'n gyson ac yn ddi-dor er budd pennaf i'r cyhoedd. Rydym hefyd yn croesawu'r cyfle mae hwn yn ei gynnig i sicrhau bod data cyson a chymaradwy yn cael ei gasglu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus ac yr adroddir amdano.

### **Darpariaeth i'r Ombwdsmon ymgymryd ag ymchwiliadau yn ôl ei gymhelliant ei hun**

15. Mae'r Bil yn cydnabod bod nifer o gyrff sydd eisoes yn ymgymryd â'r math hwn o adolygiad ac y bydd hi'n bwysig sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd rhwng rolau'r arolygiaethau a'r rheoleiddwyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chomisiynwyr.
16. Mae'r berthynas rhwng AGIC a'r Ombwdsmon wedi datblygu'n dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chytunwyd ar Femorandwm Cydddealltwriaeth yn amlinellu sut y bydd y ddau sefydliad yn cydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin.  
<http://hiw.org.uk/docs/hiw/publications/160728psowmoucy.pdf>
17. Er bod y Bil yn cyfeirio at "unrhyw unigolyn sy'n gweithredu swyddogaethau rheoleiddiol yng Nghymru" fel "unigolyn penodedig" at ddibenion yr ymgynghoriad gyda'r Ombwdsmon, nid yw'n cynnwys y pwerau i gydweithredu, cynnal ymchwiliadau ar y cyd, a pharatoi adroddiadau ar y cyd gyda rheoleiddwyr yn yr un ffordd ag y mae'n gwneud ar gyfer comisiynwyr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai'n siomedig pe bai'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar allu AGIC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i weithio gyda'i gilydd er lles y cyhoedd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

### **Y dirwedd ehangach**

18. Mae'r pwerau newydd i weithredu fel Awdurdod Safonau Cwynion ac ymgymryd ag ymchwiliadau yn ôl ei gymhelliant ei hun yn cynrychioli

datblygiad sylweddol o ran rôl yr Ombwdsmon. Mae'r rôl bresennol yn canolbwyntio ar lefel yr unigolyn, gan edrych i mewn i gwynion unigolion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru. Bydd y pwerau newydd yn golygu bod yr Ombwdsmon hefyd yn gweithredu ar lefel y system, gan sicrhau bod systemau cwynion yn gweithio'n effeithiol yn gyffredinol ac yn archwilio patrymau a thueddiadau i nodi materion systemig posib ar gyfer archwiliad pellach.

19. Ar lefel yr unigolyn, nid oes unrhyw gorff arall sy'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion am wasanaethau gan gyrrff rhestredig pan fod aelod o'r cyhoedd yn anhapus gyda'i ymateb gan y darparwr gwasanaeth gwreiddiol. Golyga hyn fod rôl yr Ombwdsmon yn weddol hawdd i'w chyfleu.
20. Ar lefel y system, mae amrywiaeth eang o gyrrff gwahanol sydd â chyfrifoldeb dros nodi ac archwilio problemau systemig wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, y comisiynwyr, a nifer o gyrrff rheoleiddio ac arolygu. Er bod hyn yn cael ei gydnabod yn y ddeddfwriaeth i raddau, bydd yn peri heriau i'w weithredu, a bydd rhaid rheoli hynny'n ofalus.
21. Mae Cymru'n wlad fach gyda thirwedd cymharol gymhleth a gorlawn o gyrrff rheoleiddiol, craffu a goruchwylio. Mae'n hanfodol bod yr holl bartïon yn deall eu rhan yn y system ac yn gweithio'n gydweithredol ac effeithiol gydag eraill, os yw'r system i weithio'n effeithiol er budd pennaf y cyhoedd.

## **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

### **Ein diben**

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

### **Ein blaenoriaethau**

Ein nod trwy ein gwaith yw:

#### ***Rhoi sicrwydd:***

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

#### ***Hybu gwelliant:***

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

#### ***Dylanwadu ar bolisiau a safonau:***

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion.

### **Ein cyfrifoldebau**

Mae ein gwaith yn cynnwys gweithgareddau mewn tri maes allweddol:

- rheoleiddio gofal iechyd annibynnol
- arolygu'r GIG
- iechyd meddwl

#### **Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol**

Cofrestru, arolygu a chymryd camau gorfodi yw'r dulliau mae AGIC yn eu defnyddio i reoleiddio'r sector iechyd annibynnol yng Nghymru yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2011, a deddfwriaeth arall (gweler Atodiad B).

Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu amrywiaeth eang o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol, sy'n amrywio o'r rhai sy'n defnyddio laserau i ysbytai preifat llawn. Mae ein gweithgareddau craidd yn cael eu rhestru isod.

- Cofrestru ac arolygu clinigau, ysbytai ac asiantaethau meddygol annibynnol.
- Cofrestru sefydliadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu annibynnol.

- Cofrestru ac arolygu lleoliadau sy'n defnyddio laser dosbarth 3B neu 4 neu beiriannau golau pwls dwys.
- Cymryd camau gorfodi pan nodir diffygion rheoleiddiol mewn lleoliadau cofrestredig.
- Nodi a delio gyda darparwyr sydd heb eu cofrestru o bosibl.

### **Arolygu'r GIG**

Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau a ddarperir gan y GIG ledled Cymru i brofi a yw'r gofal a ddarperir yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal. Mae nifer o arolygiadau AGIC yn rhai dirybudd, er nad yw hynny'n ymarferol bosibl bob amser. Rydym wedi cyhoeddi datganiad yn amlinellu'r rhesymeg ar gyfer p'un ai a yw ein harolygiadau yn rhai dirybudd neu gyda rhybudd. Rydym hefyd yn ymgymryd â chyfran o'n hymweliadau y tu allan i oriau swyddfa.

Mae'r arolygiadau yn profi yn erbyn tri maes penodol:

- ansawdd profiad y claf
- cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth

### **Iechyd meddwl**

Canolbwynt y gwaith hwn yw sicrhau bod rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn, yn derbyn gofal, ac yn cael eu trin yn briodol mewn amgylcheddau sy'n hwyluso eu gwellhad. Mae AGIC yn ymweld ag ysbytai yn y GIG a'r sector annibynnol fel rhan o'n rhaglen waith. Rydym hefyd yn ymweld â gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned i adolygu Gorchmynion Triniaeth Gymunedol.

Mae ein gweithgareddau craidd yn cael eu rhestru isod.

- Arolygu sefydliadau iechyd meddwl ac anabledau dysgu y GIG ac annibynnol gyda gweithgarwch dilynol priodol.
- Darparu'r Gwasanaeth Adolygu Iechyd Meddwl a phrosesu ceisiadau am Feddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD).
- Monitro gweithrediad y Mesur Iechyd Meddwl.
- Monitro gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road  
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ  
Ffôn / Tel: 029 20 320500  
info@audit.wales / post@archwilio.cymru  
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dyddiad: 4 Rhagfyr 2017  
Ein cyf: HVT2773/SD  
Tudalen: 1 o 7

Mr John Griffiths, AC  
Cadeirydd, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Annwyl John,

### Cam 1 Ystyried Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Diolch i chi am eich gwahoddiad i gyfrannu i'ch ystyriaeth o Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Mae'n ddrwg gennyf na allaf fod yn bresennol yn y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr 2017. Mae'n dda gennyf, fodd bynnag, allu trefnu i Kevin Thomas (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)) a Martin Peters (Pennaeth y Gyfraith a Moeseg SAC) roi tystiolaeth ar fy rhan. Rwyf hefyd yn cyflwyno'r dystiolaeth ysgrifenedig ganlynol. Mae peth o'r deunydd isod yn ailadrodd y pwyntiau a wneuthum mewn ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad i ystyriaeth o bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), y Bil drafft a baratowyd gan y Pwyllgor Cyllid tua diwedd 2016 ac, yn fwyaf diweddar, ynghylch y Bil presennol, yn fy llythyr dyddiedig 16 Hydref 2017 at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad presennol.

*Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi sydd wedi ei ddatgan*

1. Fel yr wyf yn deall, mae'r brif egwyddor gyffredinol sydd wrth wraidd y Bil wedi ei hegluro ym mharagraff 3.27 o'r Memorandwm Esboniadol, sef sicrhau bod pwerau'r OGCC yn adlewyrchu arfer gorau. Ystyriaeth fod hon yn egwyddor gyffredinol gadarn.
2. Ar y cyfan, mae'r pedwar prif estyniad o bwerau'r Ombwdsmon (fel y'u rhestrwyd ym mharagraff 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol) yn ymddangos yn cyd-fynd â'r egwyddor arfer gorau am y rhesymau a eglurwyd yn fy nghyflwyniad i'r Pwyllgor Cyllid ar 19 Chwefror 2015. I grynhoi yn fyr, rwyf yn ystyried:
  - i. y dylai ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ei gwneud yn bosibl mynd i'r afael â phroblemau systemig ehangach mewn ffordd gydlynol;

- ii. efallai y bydd manteision gwirioneddol yn deillio i bobl sy'n agored i niwed o'i gwneud yn haws cyflwyno cwynion ar lafar;
  - iii. ei bod yn werth ystyried gofal iechyd yn gydlynol pan fo'r mater yn cynnwys gofal a gafwyd yn breifat a gofal a ddarparwyd yn gyhoeddus;
  - iv. bod lle i wneud gwelliannau mewn ymarfer a gwneud arbedion drwy fodelau o weithdrefnau ymdrin â chwynion a chanllawiau ar draws cyrff cyhoeddus.
3. Er bod gennyf rai amheuon ynghylch gwir angen am newid deddfwriaethol o ran cwynion llafar, rwyf yn gweld y ddarpariaeth newydd yn hyrwyddo'r polisi. Gyda golwg ar y tri maes arall, ymddengys i mi fod angen deddfwriaeth i gwrdd ag amcanion y polisi.
  4. Yn ychwanegol at y pedwar maes newydd o ddarpariaeth, mae'r Bil hefyd yn adran 66 yn cynnwys gofyniad newydd i'r Ombwdsmon, lle mae ef neu hi yn ystyried hynny'n briodol, ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch ymchwiliadau arfaethedig yr Ombwdsmon. Credaf fod y ddarpariaeth hon yn briodol, yn enwedig fel dull o sicrhau nad yw ymchwiliadau yn gorgyffwrdd mewn ffordd anefnyddiol ag archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol ac i'r gwrthwyneb.
  5. Rwyf yn meddwl hefyd bod y pŵer newydd yn adran 67 i'r Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol gydweithio gyda'i gilydd ac i ymgymryd ag ymchwiliadau ar y cyd yn briodol ar y cyfan. Rwyf yn ystyried, serch hynny, y dylid amddiffyn yr Archwilydd Cyffredinol yn glir rhag achosion o ddifenwi gyda golwg ar gyfathrebiadau ac adroddiadau ymchwiliad ar y cyd, a chredaf y gellid ymdrin â hyn drwy ddiwygio adran 70 er mwyn ymestyn ei hamddiffyniad i gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol o ran ymchwiliadau ar y cyd.
  6. Efallai y dylwn nodi nad yw paragraff 12.39 o'r Memorandwm Esboniadol yn hollol gywir wrth ddatgan bod y Bil yn ei gwneud *yn ofynnol* i'r Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol gydweithio. Er nad yw hyn yn broblem o ran y Bil ei hun, byddai'n fwy cywir i ddweud bod y Bil yn galluogi'r Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal ymchwiliadau ar y cyd - mae grymuso o'r fath yn fwy priodol na gofyniad.

*Rhwysrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu cymryd i ystyriaeth neu beidio*

7. Mae adran 68 yn gwahardd datgelu gwybodaeth sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, wybodaeth a roddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth gydweithredu dan adran 67. Rwyf yn deall mai estyniad yw'r gwaharddiad yn ei hanfod ar y gwaharddiad presennol, sydd wedi ei gynnwys yn adran 34X o Ddeddf 2005. Nid yw estyniad o'r fath, fodd bynnag, yn ystyried yn ddigonol ystod lawn swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, nad ydynt wedi eu cyfyngu i

archwiliadau. Byddai'n gymorth felly pe câi adran 68 ei diwygio i sicrhau nad yw hyn yn cyfyngu ar yr Archwilydd Cyffredinol wrth ddatgelu gwybodaeth a roddir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 67 lle mae datgeliad o'r fath yn rhan o waith yr Archwilydd Cyffredinol wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau.

8. Dylwn efallai grybwyll bod "ymchwiliad" yn eithriad i'r gwaharddiad yn adran 68(2)(b), ac o dan ddarpariaethau dehongli'r Bil (adran 76—gweler yn benodol linellau 1 i 5 ar dudalen 51) byddai hyn i'w weld yn cynnwys archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, mae rhai o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, megis y grym i roi hysbysiadau cynghori o dan adran 33 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn dal fel pe baent yn cael eu dal gan y gwaharddiad. (Cyhoeddir hysbysiadau cynghori gan yr Archwilydd Cyffredinol pan fydd yn ymddangos iddo fod corff llywodraeth leol yn cychwyn ar wariant anghyfreithlon. Nid archwiliadau yw hysbysiadau o'r fath ac nid ydynt i'w gweld yn syrthio o fewn diffiniad o "ymchwiliad"). Gallai adran 68, fel y mae wedi ei drafftio ar hyn o bryd, felly annog rhai i beidio â chydweithredu dan adran 67, ac mae hyn yn rhwystr posibl rhag gweithredu'r Bil yn llwyddiannus.

#### *Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth*

9. Ystyriaf fod y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth yn briodol. Gydag adran 75 (cychwyn) yn eithriad priodol, mae'r holl bwerau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Dylai hyn fod o gymorth i sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth yn derbyn ystyriaeth addas gan y Cynulliad. Yn yr un modd, mae'r gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon gyda golwg ar ddeddfwriaeth eilaidd ynghylch, er enghraifft, meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, hefyd yn ymddangos yn briodol.

#### *Goblygiadau ariannol y Bil*

##### *Cost a budd*

10. Mae'n ymddangos bod goblygiadau ariannol y Bil wedi cael eu hystyried yn ofalus, a chredaf fod y costau a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol ar y cyfan yn realistig. Rwyf yn meddwl, serch hynny, bod y niferoedd o gwynion llafar ac ymchwiliadau a ddisgwyllir yn ymddangos braidd yn isel (paragraff 11.36 o'r Memorandwm) yn dibynnu ar faint o gyhoeddusrwydd a gaiff y ffaith fod cwynion llafar yn cael eu derbyn.
11. Er bod tabl cryno wedi ei roi ar dudalen 45, credaf y gallai'r crynodeb o oblygiadau'r Bil fod yn gliriach. Fel gyda llawer o Filiau, caiff y costau a'r arbedion (neu osgoi costau) eu crynhoi mewn cyfanswm dros bum mlynedd. Rhoddir y rhesymeg dros hynny ym mharagraff 11.24 o'r Memorandwm Esboniadol: “[cost] estimates can be calculated for this period with reasonable certainty.” Dywed paragraff 11.24 hefyd (heb fod yn afresymol yn fy marn i), “the Ombudsman



*expects a 'steady state' will be reached on costs and benefits relating to the new powers after three years" ac y bydd "ongoing (or recurrent) costs will continue beyond the five year period."* Rwyf yn meddwl y byddai wedi bod yn briodol gwneud y datganiadau allweddol hyn yn amlwg yn y crynodeb ar dudalen 45.

12. Nid yw'n glir i mi pam y mae amcangyfrifon yr arbedion yn seiliedig ar yr amcangyfrifon uwch o dwf beichiau achosion (yr arbedion fydd yn cronni o lefel uwch o osgoi costau), tra y rhoddir yr amcangyfrifon o'r costau fel amrediad. Efallai fy mod wedi camddechongli'r cyflwyniad, ond mae'n fy nharo i y byddai wedi bod yn briodol bod wedi rhoi ffigur osgoi costau hefyd yn seiliedig ar y rhagfynegiad twf beichiau achosion is o 5 y cant.
13. Credaf hefyd y dylai'r Memorandwm Esboniadol fod yn fwy eglur ynghylch lefel yr ansicrwydd ynglŷn ag arbedion. Mae'r Memorandwm yn cyfeirio at adroddiad y Distain a'r Archwilydd Cyffredinol, *Department of Work and Pensions: Handling Customer Complaints*, sy'n dangos y gall arbedion sylweddol fod yn bosibl drwy ymdrin â chwynion yn well. Fodd bynnag, byddwn yn awgrymu bod rhagfynegi arbedion o'r fath yn dueddol i fod yn ansicr iawn, ac nid wyf yn meddwl bod yr ansicrwydd hwnnw yn cael ei gydnabod yn ddigonol yn y Memorandwm.

#### *Cronfa Gyfunol Cymru*

14. Dywed Atodiad B y Memorandwm Esboniadol (gweler tudalen 144) nad yw'r Bil yn achosi gwariant i Gronfa Gyfunol Cymru (WCF). Nid yw hynny'n gywir. Yn wir, mae paragraffau 9 a 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer costau uniongyrchol i WCF. Felly, o dan Orchymyn Sefydlog 26.6(xi), dylai'r Memorandwm Esboniadol ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn egluro ei farn ef neu hi p'un a yw'r costau hynny yn briodol neu beidio.
15. Fel yr esboniais yn fy llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 16 Hydref 2017, ymddengys bod yr esgeulustod hwn yn codi o gamddechongliad o'm llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad, Jocelyn Davies AC, ar 19 Chwefror 2015, oedd yn egluro nad oedd y cynigion, oedd wedi cael eu rhoi gerbron gan yr Ombwdsmon ar y pryd, yn ymddangos yn debygol o fod angen darpariaethau costau uniongyrchol. Dywed Paragraff 7.3 y Memorandwm, "in line with the advice, this Explanatory Memorandum does not include a report of the Auditor General".
16. Mae'r Memorandwm yn colli'r pwynt braidd. Er fy mod efallai wedi rhoi barn nad oedd cynigion yr Ombwdsmon (oedd yn gynharach na'r Bil drafft) yn edrych yn debygol o fod angen darpariaethau costau uniongyrchol, nid yw hynny yr un peth â dweud nad oedd angen adroddiad ar unrhyw ddarpariaethau uniongyrchol oedd wedi eu cynnwys mewn Bil.



17. Rwyf yn hapus, fodd bynnag, i adrodd, ar ôl ystyried y Bil, fy mod o'r farn fod y darpariaethau costau uniongyrchol ym mharagraffau 9 a 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn briodol. Mae paragraff 9 yn darparu ar gyfer codi tâl ar y WCF am gyflog a phensiwn yr Ombwdsmon. Mae hyn yn parhau'r mesur sydd wedi ei hen sefydlu i ddiogelu annibyniaeth deiliad y swydd drwy ei gwneud yn bosibl codi tâl am gydnabyddiaeth i ddeiliad y swydd ar y WCF, yn hytrach na'i wneud yn destun cymeradwyaeth flynyddol drwy gynnig cyllideb yn y Cynulliad. Mae paragraff 10 i bob pwrpas yn indennio'r Ombwdsmon a'i staff ef neu hi a'i gontractwyr o ran torri dyletswydd. Mae hwn yn hen ddull cost-ffeithiol a phriodol o ddarparu yswiriant indenniad proffesiynol.
18. Rwyf yn hapus i baragraff 17 uchod gael ei ymgorffori mewn Memorandwm Esboniadol diwygiedig er mwyn ei gwneud yn bosibl cwrdd â gofyniad Gorchymyn Sefydlog 26.6(xi).
19. Er bod darpariaethau costau uniongyrchol paragraff 9 o atodlen 1 i'r Bil yn briodol, dangosodd profiad y byddai o gymorth pe bai darpariaeth ddi-feth yn cyd-fynd â'r rhain. Byddai hynny'n atal codi cost dechnegol anghyfreithlon ar y WCF pe bai rhyw amryfusedd gweinyddol neu wallau yn digwydd wrth wneud trefniadau cyflog. Gallai gwall o'r fath achosi swm sylweddol o waith i Lywodraeth Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru i ddim budd. Awgrymaf ddarpariaeth ychwanegol ym mharagraff 9 ar hyd y llinellau canlynol:

*I ddibenion bod symiau yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac yn cael eu talu allan ohoni, nid effeithir ar ddilysrwydd taliadau o'r fath gan unrhyw ddiffyg yn nhelerau penodi'r Ombwdsmon.*

#### *Darpariaethau archwilio*

20. Er eu bod yn syrthio'n fyr o arfer gorau, mae'r darpariaethau ar gyfer archwilio cyfrifon yr Ombwdsmon ym mharagraff 17 o Atodlen 1 i'r Bil yn ymarferol ar y cyfan. Er mwyn cwrdd ag arfer gorau dylid diwygio'r Bil fel bod gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol, wrth archwilio'r cyfrifon, fod yn fodlon bod yr Ombwdsmon wedi gwneud trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Byddai hyn yn dod â'r darpariaethau i fyny i safon darpariaethau archwilio'r GIG a llywodraeth leol (gweler adran 17(2)(d) ac adran 61(3)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004).
21. Byddai'n gymorth hefyd pe gellid dileu'r llinell derfyn o bedwar mis ym mharagraff 17(2)(b). Nid yw llinell derfyn o'r fath yn cyflawni unrhyw bwrpas defnyddiol ac mae mewn perygl o achosi dryswch os oes problemau sylweddol gyda'r cyfrifon. Digwyddodd esiampl o'r problemau sy'n codi o linell derfyn o'r fath gyda chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am 2016-17, lle roedd y llinell derfyn, oherwydd problemau rheoleidd-dra, yn gwrthdaro yn erbyn gofynion cyfiawnder naturiol. Yn

- ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru ei hun, roedd angen i mi roi cyfle i gwmnïau oedd â chontractau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru wneud sylwadau.
22. Byddai diwygiad o'r fath hefyd yn gwneud y darpariaethau cyfrifo yn debycach i gyfrifon llywodraeth leol a rhai cyrff eraill, megis Cyngor Gofal Cymru. Dewis arall fyddai peidio â gwneud y llinell derfyn yn berthnasol ond ar yr amod ei bod yn cwrdd â gofynion y Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd dan adran 10 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (mae'r Cod yn adlewyrchu gofynion cyfiawnder naturiol), neu ei gwneud yn hawdd ei newid drwy orchymyn, er ei bod yn anodd gweld sut y gallai hynny fod yn ymarferol.
23. Mater arall sy'n ymwneud ag archwilio, ac y mae profiad wedi dangos sydd braidd yn broblemus, yw'r ddarpariaeth ar gyfer adroddiadau blynyddol ym mharagraff 14 o Atodlen 1. Y broblem yw nad yw'r ddarpariaeth hon wedi ei chydgyssylltu â'r darpariaethau cyfrifon blynyddol. Mae'n arferiad normal a synhwyrol i'r Ombwdsmon, fel y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, gynhyrchu un "adroddiad blynyddol a chyfrifon", yn hytrach nag adroddiad blynyddol ar gyflawni swyddogaethau ac adroddiad blynyddol arall gyda chyfrifon. Mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys (y FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon (a chyrrff cyhoeddus eraill) ddarparu adroddiad blynyddol am eu gweithgareddau i gyd-fynd â'r cyfrifon, ac mae safonau proffesiynol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol (ac archwilwyr eraill) ystyried a yw'r adroddiad blynyddol yn gyson â'r cyfrifon.
24. Er ei fod yn arferiad normal a synhwyrol i gynhyrchu un adroddiad blynyddol, mae paragraff 14(3) a pharagraff 17(2) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau gael eu rhoi gerbron y Cynulliad. Fodd bynnag, yn achos paragraff 14(3), yr Ombwdsmon sydd i fod i osod yr adroddiad gerbron, ac yn achos paragraff 17(2), yr Archwilydd Cyffredinol sydd i osod copi ardystiedig o'r cyfrifon gerbron, ynghyd ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol amdanynt (sy'n cynnwys ystyried yr adroddiad blynyddol). Mae'r gofyniad hwn, sydd o ran ei effaith yn dyblygu'r angen i osod gerbron, yn drefniant blêr, a byddai o gymorth pe bai paragraff 14 yn gallu darparu i'r adroddiad blynyddol ar swyddogaethau gael ei gynnwys yn nogfen yr adroddiad blynyddol gyda'r cyfrifon, ac y gallai'r Archwilydd Cyffredinol wedyn osod y ddogfen honno gerbron.
25. Er mai ailadrodd paragraff 14 o atodlen 1 i Ddeddf 2005 y mae paragraff 14, byddai'n briodol cymryd y cyfle i fynd i'r afael â'r broblem.
26. Yn olaf, gyda golwg ar ddarpariaethau archwilio, sylwaf fod paragraff 14.18 o'r Memorandwm Esboniadol yn crybwyll y gellid defnyddio archwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd defnydd yr Ombwdsmon o adnoddau, fel rhan o'r adolygiad yn dilyn gweithredu'r Bil. Er fy mod yn ystyried y gallai cynnal archwiliad, er mwyn cynorthwyo i hysbysu adolygiad y Cynulliad yn dilyn gweithredu (adran 72), fod yn ddefnyddiol iawn ac

yn ymarferiad diddorol, dylwn nodi na allaf rwymo fy olynydd i gynnal archwiliad o'r fath.

#### *Canlyniadau anfwriadol y Bil*

27. Mae Atodlen 3 i'r Bil yn rhestru "Swyddfa Archwilio Cymru", ac felly yn ei gwneud yn gorff a allai fod yn ddarostyngedig i ymchwiliadau'r Ombwdsmon. Fel yr eglurais yn fy llythyr at y Llywydd ar 8 Mehefin 2016, roeddwn wedi trafod a chytuno gyda'r Ombwdsmon o'r blaen fod hyn mewn perygl o greu dryswch fyddai'n difa amser ac yn achosi rhwystredigaeth, a fyddai mi gredaf yn ganlyniad anfwriadol. Mae llawer o bobl yn cymysgu Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r Archwilydd Cyffredinol ac yn gwneud y camgymeriad o feddwl bod SAC yn cynnal archwiliadau ond, mewn gwirionedd, mae prif swyddogaethau SAC wedi eu cyfyngu i ddarparu adnoddau a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Y perygl o gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru o fewn maes gorchwyl yr Ombwdsmon fyddai peri i unigolion, a hoffai i'r Archwilydd Cyffredinol gyrraedd barn archwilio wahanol, dybio bod yr Ombwdsmon yn cynnig cyfrwng i farn o'r fath gael ei hadolygu.
28. Yn wir, gan nad yw swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys darparu gwasanaethau i unigolion (ar wahân i'r Archwilydd Cyffredinol) mae'r Ombwdsmon a minnau yn teimlo ei bod yn anodd gweld sut y gellid byth gyflwyno achos i'r Ombwdsmon fyddai'n galw'n gyfreithlon am adolygu gweithredoedd Swyddfa Archwilio Cymru. Byddai'n gymorth felly pe gellid cyflwyno gwelliant i ddileu Swyddfa Archwilio Cymru o Atodlen 3. Deallaf y bydd yr Ombwdsmon yn ysgrifennu at y Pwyllgor i'r un perwyl.

Gobeithiaf fod yr uchod o gymorth.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

8 December 2017

Dear Llywydd

## Supplementary Legislative Consent Memorandum – The Financial Guidance and Claims Bill

Thank you for your letter dated 6 December in relation to the above LCM, which we discussed in our meeting on 7 December.

In reporting on the initial LCM in July 2017, we sought clarity from the Welsh Government on a number of issues including their analysis of how the provisions requiring the Assembly's consent related to devolved subject areas identified in its memorandum. In particular, how the provisions related to subject 4 Economic Development of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. In replying (in a letter dated 23<sup>rd</sup> August 2017) the Government did not directly address this issue. In reporting on the LCM, we stated there was no reason why the Assembly should reject the LCM, but that Members may wish to seek clarity during the plenary debate on this outstanding issue. As the Plenary debate on the original LCM has not yet occurred, this clarification remains outstanding.


At our meeting on 7 December, we agreed to seek clarification from the Welsh Government on this outstanding issue as a matter of urgency. We will also schedule the LCM for consideration at our meeting next week, to ensure that if the LCM is referred to us for scrutiny, we are in a position to discuss it in more detail.

However, even taking this into account, as our first Committee meeting after the Christmas recess is 11 January, the current timetable would not allow us to report by 9 January. As your letter seems to indicate that it does not need to be considered by 9 January, we would suggest that the Plenary debate is moved back to 16 January, which would enable us to consider the supplementary LCM, seek



clarification from the Welsh Government and report. This would still ensure scrutiny was undertaken in less than six sitting weeks.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "John". The letters are cursive and connected.

John Griffiths AM  
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Rebecca Evans AM  
Minister for Housing and Regeneration

8 December 2017

Dear Rebecca

## Supplementary Legislative Consent Memorandum on the Financial Guidance and Claims Bill

You will be aware that on 11 July 2017, the Business Committee referred the Legislative Consent Memorandum on the Financial Guidance and Claims Bill to the Children, Young People and Education Committee for consideration. As elements of the LCM fall within the Equality, Local Government and Communities Committee's remit, the LCM was also considered by our Committee.

We wrote to the Welsh Government seeking clarification on a number of issues including the extent to which the provisions identified in the LCM under Education and Training; Social Welfare; and Economic development were within the Assembly's legislative competence. The response did not cover this clarification. (Copies of both letters are enclosed).

In reporting on the LCM we stated there was no reason why the Assembly should reject the LCM, but that Members may wish to seek clarity during the debate on this issue. As the debate on the LCM has not yet occurred, this clarification remains outstanding.



We received a letter from the Business Committee on 6 December asking if we could consider the supplementary LCM by 9 January. At our meeting on 7 December, we considered this request, and agreed to do our utmost to ensure swift consideration of the supplementary LCM. To this end, we will be tabling it for consideration at our meeting on 13 December, to ensure that if it is referred to us, we can consider it before Christmas. However because there is still an outstanding issue, we would ask that you could provide clarification on the outstanding matter in writing, as soon as possible, but no later than 2 January.

As the Llywydd's letter indicates that there will be time for committee scrutiny, we would suggest time is given to enable us to consider your response before reporting before the Plenary debate. We believe this could be done if the Plenary debate was moved back to 16 January. This would give us four sitting weeks to consider the LCM, which is still less than the six week period which the Welsh Government has previously committed to for scrutiny of LCMs.

Yours sincerely



John Griffiths AM  
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon